



18 Tachwedd 2020

Annwyl

Cais am Wybodaeth – ATISN 14027

Ysgrifennais atoch ar 12 Mehefin a 3 Gorffennaf ynglŷn â'ch cais am wybodaeth. Rydym yn flin iawn am yr oedi cyn ymateb.

Rydych wedi gofyn am y canlynol –

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020, gopi o bob gohebiaeth rhwng adran Trafnidiaeth y Llywodraeth a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg pan fo achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi dod i'r amlwg rhyngddynt.

Gallaf gadarnhau fod gennym yr wybodaeth rydych yn gofyn amdani. Gan fod cymaint o ddogfennau pdf (109) wedi dod i glawr yn sgil eich cais, bydd eu he-bostio yn debygol o orlwytho'ch blwch post chi a'n blwch ninnau. Rydym felly am gadw'r dogfennau mewn man cyswllt a rennir rhyngom. Byddwch yn cael e-bost (ar ôl y llythyr hwn) yn eich gwahodd i godi'r dogfennau o'r man cyswllt a rennir. Byddwn yn rhoi manylion ichi sut i fynd i'r cyfrif did-dâl hwn yn yr e-bost.

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, cewch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid anfon ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Yr Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

neu anfonwch e-bost at: Freedom.ofinformation@gov.wales. Cofiwch ddyfynnu'r rhif cyfeirnod ATISN uchod.

Hefyd mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

The Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Fodd bynnag, noder na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi mynd drwy ein proses adolygu mewnol.

Yn gywir

Adran 22 – Gwybodaeth y Bwriedir ei Chyhoeddi yn y Dyfodol



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Llywodraeth Cymru /
Welsh Government
Parc Cathays / Cathays Park
CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Adran 22 yn dweud bod gwybodaeth yn cael ei hesemptio rhag cael ei datgelu o dan yr amgylchiadau canlynol –

- a) Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw gan awdurdod cyhoeddus â'r bwriad o'i chyhoeddi, boed hynny gan yr awdurdod neu unrhyw un arall, rywbryd yn y dyfodol (ni waeth a bennwyd y dyddiad cyhoeddi neu beidio).
- b) Roedd y wybodaeth eisoes yn cael ei chadw gyda'r bwriad o'i chyhoeddi ar adeg y cais am wybodaeth, a
- c) Mae'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau na ddylid datgelu'r wybodaeth tan y dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff a).

Yn fy marn i mae isadrannau (a) a (b) uchod yn cael eu bodloni oherwydd bod y wybodaeth yn cael ei chadw â'r bwriad o'i chyhoeddi. Disgwylir i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

Ynglŷn â rhan (c), rwyf wedi ystyried a fyddai'n 'rhesymol o dan yr holl amgylchiadau' gadw'r wybodaeth yn ôl tan y dyddiad y bwriedir ei chyhoeddi. Yn fy marn i byddai rhyddhau'r wybodaeth ar yr adeg hon yn amharu ar fwriadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i threfniadau chyhoeddi. Felly, rwy'n fodlon i'r esemptiad gael ei arfer.

Mae adran 22 yn esemptiad er budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu, er mwyn cadw gwybodaeth yn ôl, rhaid imi ddangos y byddai cadw'r wybodaeth yn ôl yn fwy buddiol i'r cyhoeddi na'i rhyddhau.

O ran budd y cyhoedd, cydnabyddir bod gonestrwydd a thryloywder o fewn y Llywodraeth yn fuddiol i'r cyhoedd.

Mae'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiectau o dan y Gronfa Busnesau Micro a Bychan o 1 Ebrill 2019 yn cael ei choladu a'i gwirio ar hyn y bryd. Cytunwyd ar y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r wybodaeth hon fel rhan o fusnes arferol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol, a bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth o'r fath ar ein gwefan, ond mae proses ddilysu drwyadl yn cael ei chynnal ar y wybodaeth i sicrhau ei bod yn gywir. Mae cyfyngu mynediad at yr adroddiadau cyn cyhoeddi yn sicrhau ein bod yn cyhoeddi'r gwybodaeth mewn modd cydgysylltiedig a bod pawb yn ei gweld ar yr un pryd. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y broses olygu'n cael ei dilyn, a fydd yn cadarnhau ansawdd a chywirdeb y data. Yn y pen draw bydd hyn yn gwella ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi ac yn sicrhau y dilynir y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae'n bosibl y gallai cyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys ymchwil, drafftio ac archwiliadau manwl yn gynnar yn arwain at wybodaeth anghywir nad yw wedi cael ei gwirio'n cael ei datgelu cyn yr adeg gywir – a gallai hyn gamarwain y cyhoedd.

I'r perwyl hwnnw, nid wyf yn credu ei bod yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau neu er budd y cyhoedd ryddhau'r wybodaeth hon yn gynnar. Yn hytrach, credaf mai'r ffordd orau o sicrhau budd y cyhoedd fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn unol â'r amserlen gyda thrafodion eraill ar gyfer y cyfnod hwnnw. Rwy'n fodlon, felly, y byddai'n well er budd y cyhoedd pe bai'r wybodaeth yn cael ei chadw'n ôl